
# y dinesydd

Gorffennaf/Awst 2003 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 282


## Bugail, Golffiwr a "Phab" Aml-ffydd?

*Sefydlwyd y Gwir Barchedig Barry Morgan, Esgob Llandaf, yn Archesgob Cymru ar 12 Gorffennaf. Dyma ddarlun cynnil a byw o'r Archesgob newydd a'i ddyheadau gan ei gyfaill, yr Arglwydd Dafydd Elis-Tomos. Mae'r 'Dinesydd' yn dymuno'n dda i'r Archesgob newydd.*



Doedd dim amheuaeth nad oedd deunydd Archesgob yn Barry, a adweinid gydag anwyldeb yn Esgobaeth Bangor fel "Barry Bish".

Nid iddo gael amser hawdd fel Esgob yno yn sgîl ei benderfyniad i beidio â chynnal adeiladau gweigion a gwrando ar farn menywod a phobl ifanc oedd mewn peryg o fod wedi cael eu hecsbloetio. Cyfathrebwr clir a bregethodd fedydd Esgob gan gonffyrmio ienctid Llanbeblig yng Nghaernarfon drwy ddod â set o glybiau golff gan eu swingio'n beryglus yn y gangell. Diolch byth na thynnodd y bêl wen allan neu gallai fod wedi bod mor beryglus ag un o'r troeon honedig ar faes golff Baron Hill ar nos Sul wrth i Esgob Bangor ymlacio wrth ei hoff adloniant.

Pwy all anghofio'r offeren fawr a ddathlodd yn yr awyr agored yn nhir parc Glyn Llifon ar gyfer praidd gwlyb o bob cwr o Esgobaeth Bangor? A'r defaid yn gwlychu fwyfwy wrth i'r darpar Archesgob esgyn ar falcon cysgodol y Plasty yn ei feitr i draddodi'r Fendith arnom. Gallem fod wedi bod yn San Pedr yn Rhufain gyda'r Pab ei hun y diwrnod hwnnw. Ac fe beidiodd y glaw.

Cyrhaeddodd Gadeirlan Llandaf fel y Morgan arall ganrifoedd o'i flaen gan osod y dwyieithrwydd ysbrydol a chreadigol a arloesodd gyda chynllun iaith Esgobaeth Bangor ar waith yn ei Esgobaeth a'i Gadeirlan newydd. Ni thraddodir y Fendith yn Saesneg gan Archesgob Barry os oes unrhyw gyfle i Ysbryd amlieithog y Pentecost fod ar waith. Trwy benodi'r Deon John Lewis cynhaliodd urddas Catholig gwasanaethau traddodiad uchel-Eglwysig Llandaf gyda phregethu cymdeithasol heddychol radical a phroffwydol, ond gyda hiwmor hefyd. Bellach, yn yr Offeren ar Gân am un ar ddeg, mae hi'n draddodiad newydd i ymwelwyr o Gymru, neu o bob rhan o'r byd, glywed un o'r gweddïau cysegru yn Gymraeg.

Ond yng nghanol gofidiau plwyfolion Grangetown y treuliodd yr Esgob newydd ran fawr o'i weinidogaeth, yn lleddfu gofidiau yn y plwyf hwnnw, gan gyfuno consyrn am ddisgyblaeth Eglwysig gyda gofal a gobaith i blwyfolion.

Gwrando ar bobol Cymru a wnaiff ein Harchesgob newydd hefyd. Mae tôn ei weinidogaeth fugeiliol wedi ei gosod yn barod, gan ddyfynnu'r ffigurau cyfrifiad sy'n dangos bod y boblogaeth drwyddi draw yn arddel Cristnogaeth, a holi sut y mae troi'r sefyllfa honno yn brofiad byw i ni i gyd.

Nid gweinidogaeth gydenwadol a Chytun a fydd ganddo ond un aml-ffydd a chydwladol, ac felly'n un Gristnogol a dyneiddiol ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang a'r ddinas sydd ar ddyfod.

## GWASANAETHU BWYD A GWLEIDYDDIAETH YN Y BAE

Mae StrataMatrix, y cwmni cyfathrebu dwyieithog, wedi ennill cytundeb allweddol i hyrwyddo bwydydd Cymreig mewn ffeiriau bwyd arbenigol a rhyngwladol. Cafodd y cwmni ei restru eleni ymhlith prif gwmnïau twf Cymru.

Mae'r cytundeb yn golygu dylunio ac adeiladu'r stondin bwyd Cymreig mewn sioeau bwyd a chydgysllltu rhwng y cwmnïau sy'n arddangos a'r trefnwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyfle i gwmnïau bwyd o Gymru fynychu'r prif sioeau bwyd rhyngwladol a sioeau bwydydd arbenigol o dan faner y brand newydd *Y Gwir Flas* a drefnir trwy Gyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru.

Mae'r cytundeb newydd hwn yn cydredeg â datblygiadau eraill allweddol i StrataMatrix, sy'n cynnwys agor swyddfeydd newydd ym Mae Caerdydd ar gyfer tîm newydd o staff. Sefydlwyd StrataMatrix ym 1979 fel asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus. Mae'r cwmni wedi datblygu uned gwasanaethau gwleidyddol ac erbyn hyn mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ganolog i waith y cwmni.

Mae adleoli i'r Bae yn ddatblygiad strategol i'r cwmni. Dr Non Gwilym sy'n arwain tîm gwleidyddol StrataMatrix yn y Bae. Mae Non yn gyn-ymchwilydd a darlithydd yn Sefydliad Gwleidyddol Cymru, ac mae'n arbenigwraig gydnabyddedig ar ddatganoli yng Nghymru. Lleolir y swyddfeydd newydd yn Nhŷ Regus, Falcon Drive, Bae Caerdydd. Mae prif swyddfa StrataMatrix yn parhau yn Aberystwyth.



Tîm newydd StrataMatrix yn y Bae, o'r chwith: Dr Non Gwilym, Llinos Iorwerth, Tomos Williams, Wynne Melville Jones, Wyn Gruffydd, Dawn Havard.

# Y Dinesydd

**Gorff./Awst, Rhif 282.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygyddion y rhifyn hwn:**
Alun a Mair Treharne

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
D. Bryan James

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Medi 2003 erbyn 23 Awst at:**
D Bryan James, 52 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QB (Ffôn: 029-2056-6731; e-bost: db.james@ntlworld.com)

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopïau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas. Mae ein hysbysebwyr yn tystio pa mor effeithiol a rhesymol yw hysbysebu yn *Y Dinesydd*. Ar ben hynny, mae pob hysbyseb yn cyfrannu at gynnal *Y Dinesydd*, gan fod incwm hysbysebion yn hanfodol i barhad y papur.

Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd*, cysylltwch â MENNA GWYN, 41 Wingfield Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041-8270; e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk).

## DERBYN A DOSBARTHU COPÏAU

Os ydych yn cael anhawster i gael gafael ar gopïau o'r *Dinesydd*, neu os ydych yn barod i fod yn ddosbarthwr, cysylltwch â ROBIN JONES, 1 Kings Rd, Radur, Caerdydd (Ffôn: 029-2084-2929).

Os ydych am dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post, cysylltwch â CERI MORGAN, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG (Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com).

## CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL


Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r *Dinesydd*. Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i ymuno â'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau, golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*, Dr E. WYN JAMES, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato dan ofal Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG
(Ffôn: 07774-816209;
e-bost: ceri33@btopenworld.com).

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 41** **Gorff./Awst 2003**



**Ar Draws**

1. 'Duw ymddangosodd yn y cnawd, ___ ___ ___ yn Brynwr' (J.H.) (2,6,5)
8. Bu'n sail simsan i'r lle yma (7)
9. Troi yn ôl i gael un gwirion (5)
10. Perthynas i Nia druan (3)
11. A yw llac y dewr yn lle i'r rhai sydd heb ennill? (8)
13. Neidio dros adfeilion Adulam (6)
14. Daw'r tŷ i lawr ymhen tridiau (6)
17. 'At Iesu ___ ; ces fy Haul A'm Seren ynddo Ef.' (H.B. cyf) (8)
19. A oes cerrig mân ym Mhenygroes? (3)
21. Taflu aml i olwg hir ar yn ail ar un cyflym ar bedair coes (5)
22. Goganwr a naw drych wedi dryllio (7)
24. 'Fel ewyn ton a dyr ar draethell unig, Fel cân y gwynt lle nad ___ ___ ___ ___ (Waldo) (3,5,1,4)

**I Lawr**

1. A f..flinach ar fyw yma? (8)
2. Cyfnewid 51 bargen diddiwedd am un o'r angylion (7)
3. 'Gwelais ei ___ liw dydd Ar ffordd yr ucheldir iach' (Eifion Wyn) (3)
4. Yn edrych yn graff ar ynys wyllt y lliaws (2,4)
5. Bu'n sir del ond nawr mae'n drafferthus (9)
6. Darpariaeth fel i faban efallai? (5)
7. Mae un y llew yn blodeuo! (4)
11. Ai cyfeiliornus yw rhywbeth cain a syml? (9)
12. 'Mi wn eu bod yn galw'n ofer arnom, Hen bethau anghofiedig ___ ___ (Waldo) (5,3)
15. Torri pen y sglodion a'u hysgwyd nes eich diwallu (7)
16. Mae'r Rwsiad cyntaf yn y gad yn arwain yr Aelod Seneddol â rhwymyn (6)
18. A yw hon yn ddidwyll? (5)
20. Torri amod y wisg dof (4)
23. Awel yn codi awydd (3)

**Croesair Rhif 40**

**Ar draws:** 1. Trobwynt; 6. Cagl; 8. Gwesty; 9. Clebar; 10. Castellnedd; 14. Wylo; 15. Twll; 16. Ogof; 17. Cymdeithas; 20. Tarian; 22. Wybren; 23. Athro; 24. Dant y llew. **I lawr:** 2. Riwl; 3. Byst; 4. Yn y pantri; 5. Tic; 6. Caerllian; 7. Gwaredol; 11. Tylluan Wen; 12. Cydymaith; 13. Coedwigo; 18. Obry; 19. Gele; 21. Nad.

Derbyniwyd 19 ymgais a 15 ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr y tro hwn i Marian Lake, Argoed, 8 Clos Swallowhurst, Llanfihangel ar Elai. Derbyniwyd yr atebion cywir eraill oddi wrth Gwilym Lloyd Edwards, Gaenor Hall, Heledd Hall, Gwenda Hopkins, H O Hughes, E Haydn Jones, E M Jones, Gethin Jones, Gwyn Jones, Margaret Jones, Dilys A Pritchard-Jones, Buddug Roberts, Huana Simpson a Delwyn Tibbott.

**Cystadleuaeth Gorff.Awst**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 21 Awst 2003.

### Cydymdeimlo â:

- Alcwyn a Rhoswen Deiniol, y Barri, ar farwolaeth annhymig eu mab hynaf, Prys Gweirydd, yn 24 oed ar 7 Mehefin. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys y Tabernacl, y Barri, ar 19 Mehefin, ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.

- Brian Whettleton, Llysfaen, a'i deulu ar golli ei dad, William John Whettleton, yn Ysbyty Treforys ar 3 Mehefin. Bu'r angladd yn Amlosgfa Margam ar 10 Mehefin.

- Sheila Adams (Belfield) gynt a'i theulu ar farwolaeth ei mam, Kathleen Belfield, yn Ysbyty Rookwood, Llandaf, ar 3 Mehefin. Bu'r angladd yng nghapel Park End, Cyncoed, ar 12 Mehefin, ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.

- Ruth Walters a'r teulu, Llandaf, ar farwolaeth ei gŵr, Geraint Walters CBE, yn 93 oed ar 6 Mehefin. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 16 Mehefin. Cafodd Geraint Walters ei fagu yn y Wladfa ym Mhatagonia cyn i'r teulu ddychwelyd i fyw yng Nghymru.

- Jean Lloyd Williams, yr Eglwys Newydd, a'i theulu ar farwolaeth ei gŵr, Jack Lloyd Williams, ar 5 Mehefin. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 14 Mehefin.

### Llongyfarchiadau

- i Dr Gerallt Emyr, mab John a Gwen Emyr, 3 Heol St. Isan, Y Mynydd Bychan ar ennill gradd feddygol ym Mhrifysgol Caeredin. Pob dymuniad da iddo ar ei swydd gyntaf yn Ysbyty Victoria, Kirkcaldy yn yr Alban.

- i Betsan Powys a Dylan ar enedigaeth Manon, wyres i Eiona Hammond, Llundain, a Rhiannon ac R. Alun Evans, yr Eglwys Newydd.

- i Jonathan a Helen Davies, Llandaf, ar enedigaeth merch fach ar 3 Mehefin - chwaer newydd i Scott, Grace a Geena.

### Anrhydedd i Ŵr o'r Rhondda a Chaerdydd!

Llongyfarchiadau i Owain Arwel Hughes a anwyd yn y Rhondda, ond a fagwyd yng Nghaerdydd, ar gael ei ddewis yn Brif Arweinydd Gwadd y Gerddorfa Ffilharmonig Frenhinol. Ymhlith ei ddyletswyddau cerddorol eraill y mae'n Gyfarwyddwr Cerdd Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru. Pob hwyl iddo!

### Cadeirydd Newydd i Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru

Tony Lewis, Cyn-gadeirydd Bwrdd Croeso Cymru, fydd Cadeirydd newydd Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru. Bydd yn ymgymryd â'i ddyletswyddau newydd ym mis Medi, gan ddilyn Geraint Talfan Davies, sydd bellach yn Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru.

### Taith Haf Tŷ'r Cymry

Daeth 25 o aelodau Tŷ'r Cymry ynghyd ar nos Fercher 18 Mehefin i ymweld ag ardal Llanofer yn Sir Fynwy. Tywysydd y daith oedd Eleri Rogers, Croes Cyrlwys, a chafwyd amser difyr yn ei chwmni a chlywed am hanes Arglwyddes Llanofer, 'Gwenynen Gwent', a'i chefnogaeth i'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

### Ethol Swyddogion

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina ar nos Lun 16 Mehefin, pan etholwyd swyddogion newydd ar gyfer 2003/4. Y Cadeirydd bydd Gwenda Morgan, ac Ann Brain yn Ysgrifennydd a Mair Dyfri yn Drysorydd.

### Anrhydeddau Ddaeth i'n Bro

Llongyfarchiadau i Colin Jackson ar dderbyn y CBE yn anrhydeddau'r Frenhines, ac i Elwyn Moseley ar dderbyn y CBE.

## Diolch, 'Bloda', am y bloda

Fe welsoch yn rhifyn Mehefin o'r *Dinesydd* fod siop flodau o'r enw 'Bloda' wedi agor yn ardal Grangetown. I ddathlu agoriad y siop cytunodd perchnogion 'Bloda' i gyflwyno tusw o flodau i'r person cyntaf i ateb y cwestiwn 'Pa gantores adnabyddus ganodd am Y Rhosyn Gwyn?'

Yr ateb wrth gwrs yw Margaret Williams. Ar ôl cribinio trwy'r cynigion a chwynnu yma ag acw, yr enw cyntaf o'r potyn oedd Siw Hughes (na, nid Kath Jones). Un a'i gwreiddiau yng nghanolbarth Cymru yw Siw, ond sy bellach yn blodeuo yn ardal Y Tyllgoed. Llongyfarchiadau iddi, a diolch i 'Bloda', 88 Stryd Paget, Grangetown - 029 20394284 - www.bloda.co.uk

2YQ

## "2YQ" YN TORRI TIR NEWYDD YN Y BRIFDDINAS


Er mai dim ond ers wyth mis mae 2YQ wedi ei sefydlu yng Nghaerdydd, mae'r diddordeb yng ngweithgareddau'r mudiad wedi mynd o nerth i nerth.

Ym mis Hydref 2002, yn nhafarn y 'Cornwall', Grangetown, daeth 25 o bobol ifainc y Brifddinas at ei gilydd yn dilyn hysybyseb e-bost. Bellach, mae 2YQ wedi lansio gwefan gyffrous ym mis Mehefin sy'n rhoi cyfle i bobol gymdeithasu'n fisol trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny drwy weithgareddau amrywiol, diddorol a bywiog.

Er mai'r Gymraeg yw iaith y criw, mae cyfeillion di-Gymraeg yn ogystal â thramorwyr o bedwar ban byd wedi mynychu rhai o'r digwyddiadau, sy'n amrwyio o fowlio deg i farbeciw. Un o'r digwyddiadau hynny fu'r 'asado' (barbeciw) Archentaidd gyda thros hanner cant o bobol yn mynychu ac yn mwynhau cymdeithasu yn enw'r iaith Gymraeg. Cafwyd cyfle gwych i werthfawrogi ac i wrando ar gerddoriaeth Gymraeg gyfoes yn ogystal â cherddoriaeth Ladin-Americanaidd.

Mae gwefan 2YQ yn cynnwys cysylltiadau defnyddiol ac mae cyfle yn ogystal i rai ysgrifennu pytiau am lefydd bwyta diddorol yng Nghaerdydd neu am brofiadau teithio. Y bwriad yn y pen draw yw datblygu'r wefan yn rhywbeth byw a rhyngweithiol, sy'n berthnasol i fywydau Cymry Cymraeg a dysgwyr Caerdydd. Bwriedir datblygu rhannau ohoni'n amlieithog. Nid yw 2YQ yn cyfyngu ar oedran, ond mae'r mwyafrif yn eu hugeiniau a thridegau.

Gallwch ddysgu mwy am weithgareddau 2YQ, drwy rwyfo www.2yq.org, neu er mwyn derbyn gwybodaeth fisol am eu gweithgareddau, ebostiwch gwybodaeth@2yq.org



## Côrdydd yn y Caribî

Flwyddyn yn ôl, cafodd Côrdydd wahoddiad i gymryd rhan yng Ngŵyl Geltaidd flynyddol Barbados. Derbyniwyd y gwahoddiad fwy neu lai ar unwaith, yna cawsom flwyddyn o gynnal gweithgareddau i ddenu diddordeb a chodi arian tuag at y daith. Ar ôl blwyddyn o baratoi ac edrych ymlaen, daeth yr aros i ben wythnos y Sulgwyn eleni a 38 ohonom ar dân i gyrraedd paradwys y Caribî.

I'n croesawu i'r ŵyl, cawsom fersiwn Barbados o'r *Highland Games* gyda phawb yn mwynhau gêmau di-ri ar y traeth a pherfformiadau dewr iawn yn yr ornest tynnu rhaff!

Ar y nos Fawrth, roeddem yn cymryd rhan mewn cyngerdd yn Neuadd Collymore yn Bridgetown, ynghyd ag un o gorau lleol yr ardal. Dan arweiniad ein harweinyddes, Sioned James, buom yn diddanu cymuned yr *ex-pats*, gyda'r rhaglen gerddoriaeth amrywiol yn tynnu ambell ddeigryn i lygaid y Cymry alltud.

Cawsom hefyd wahoddiad i ganu mewn Cymanfa Ganu yn un o gapeli'r brifddinas, gyda thri chôr lleol arall. Gyda'r gynulleidfa frwdfrydig dan arweiniad Alun Guy, a'r gwres tanbaid, profodd hon yn noson i'w chofio. Profiad bythgofiadwy oedd cydganu emyn-donau Cymreig yng nghwmni llond capel o drigolion lleol Barbados.

Uchafbwynt y daith i lawer oedd dwy daith a gawsom ar gwch catamaran ar hyd arfordir yr ynys. Yn ystod y dydd, cawsom gyfle i roi tro ar snorcelio a nofio ynghanol y pysgod a'r cwrel amryliw - profiad cofiadwy iawn! Ar y daith nos, roedd pawb mewn hwyliau a digonedd o ganu a dawnsio i'n diddanu ar fwrdd y llong. Daeth y cyfan i ben gyda'r côr yn morio canu'r anthem wrth ddocio 'nôl yn yr harbwr.

Roedd hi'n wythnos i'w chofio, a'r sylw rwan yn troi at ddewis pa wlad y byddwn ni'n ymweld â hi'r flwyddyn nesaf. Mae'r awydd i deithio wedi cydio!

**Bethan Williams**



Rhai o griw'r côr yn ymlacio ar y cwch yn y Caribî

### MUDIAD YSGOLION MEITHRIN BRO MORGANNWG
### Gŵyl Feithrin 2003

Dydd Iau, 19 Mehefin 2003, daeth Cylchoedd Meithrin ac ysgolion Cymraeg Bro Morgannwg at ei gilydd i ddathlu Gŵyl Feithrin Genedlaethol Mudiad Ysgolion Meithrin. Fe'i cynhaliwyd eleni yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg a'r thema oedd 'Dyma Fi'. Yno i'n diddanu roedd Brigâd Dân De Cymru, Heddlu De Cymru, y Bws Chwarae, Martyn Geraint, Sali Mali a Superted. Diolch hefyd i'r athrawon a'r disgyblion am eu cymorth. Cafodd y 200 o blant a fynychodd yr ŵyl amser wrth eu bodd. Diolch i bawb a gefnogodd yr Ŵyl - bu'n llwyddiant ysgubol!

### *Gong* i Elwyn Tudno

Mae Elwyn Tudno wedi cael *gong* - OBE gan y Frenhines am wasanaeth i'r gymuned. Mae Elwyn a'i briod, Mair, yn byw ym Mhendeulwyn ac yn teimlo'n wylaidd o dderbyn yr anrhydedd.

Fe fu Elwyn, sy'n hanu o Gaernarfon, ac yn gyn-reolwr Partneriaeth Symonds, yn weithgar iawn mewn nifer o wahanol feysydd gwirfoddol. Mae'n aelod o fwrdd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne, yn Gyfarwyddwr Sgript Cymru, ac yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Celf y Bae.

Bu'n weithgar iawn yn helpu i gasglu £4 miliwn i sefydlu Canolfan Ymchwil y Galon Geraint Evans; yn Gadeirydd Llywodraethwyr Coleg Prifysgol Casnewydd; ac yn aelod o Bwyllgor Maes yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cafodd ei urddo gan Orsedd yr Eisteddfod. Ei hoff ddiddordebau yw canu, pysgota, cerdded a hwylio.

# SARS:
# Byw yng Nghysgod yr Haint

***Argraffiadau Gwenfair Michael, sydd newydd ddychwelyd adref o ddinas Toronto***

Roedd teithio ar y trên tanddearol yn brofiad rhyfedd pan oedd SARS ar ei hanterth yn Nhoronto. Roedd y papurau a'r cyfryngau wedi bod yn sôn yn ddi-baid am nyrs oedd wedi teithio ar drên tra'i bod hi'n dioddef o symptomau cynnar SARS. Roedden nhw'n ceisio rhybuddio'r rhai oedd yn eistedd wrth ei hymyl hi y gallen nhw fod mewn perygl o ddal yr haint hefyd.

Wrth eistedd ar y trên, heb lyfr, roedd hi'n hawdd i'r meddwl grwydro. Rhaid cyfaddef i fi bryderu un tro wrth eistedd gyferbyn â menyw oedd a hances frwnt wrth ei thrwyn, ac yn pesychu'n ddrwg. Roedd rhaid cofio y gallai fod yn dioddef o annwyd, neu ffliw, ac nid SARS.

Dim ond ar y teledu y byddech chi'n gweld pobl yn gwisgo masgiau, ac nid ar y stryd fel arfer. Roedd yr un neu ddau oedd yn gorchuddio'u ffroenau yn destun sbort braidd - am fod yn or-bryderus. Serch hynny, roedd hylif gwrthfacteria yn gwerthu'n well nag erioed yn y ddinas. Ond pan ddaeth un o'm cyd-fyfyrwyr â photel gydag e i ddarlith a'i chynnig i'r gweddill ohonom i lanhau'n dwylo, fe chwarddon ni.

Roedd hi'n rhyfedd hefyd yn y capel adeg y Pasg pan rybuddiodd y gweinidog ni i beidio ag ysgwyd llaw â'n gilydd fel arwydd o heddwch, ond i amneidio ar ein gilydd yn lle. Wfftiodd rhai y rhybudd a mynd mor bell â chofleidio'r rhai o'u hamgylch, ond roedd eraill yn gwgu ac yn cadw'u dwylo i'w hunain.

Ond roedd hi'n syndod mawr pan gyhoeddodd yr WHO y rhybudd i beidio â dod i Doronto. Doeddwn i ddim wedi ystyried bod y sefyllfa mor ddifrifol, na felly chwaith Faer y dref - Mel Lastman. Roedd e'n gandryll am y cyhoeddiad. A phwy allai ei feio gan i'r cyhoeddiad fwrw busnesau twristaidd y ddinas yn arbennig. Doedd y diwydiant ffilmio prysur ddim yn llewyrchus bellach chwaith. Ac mae Toronto o hyd yn dioddef, a hithau'n wyliau'r haf. Mae sôn y bydd y Rolling Stones yn cynnal cyngerdd am ddim yn Nhoronto ddiwedd y mis. Mae'r awdurdodau'n awyddus iawn i gael gwared o unrhyw ofnau nad yw'r lle'n saff, a gweld pobl yn mwynhau'u hunain unwaith eto. Mae'r ddinas yn haeddu hynny.

Doeddwn i ddim yn ofni dal yr haint tra mod i yno, ond roeddwn i'n ofni y bydden i'n cael fy rhoi mewn cwarantîn ar ôl dod adref! Ddaeth hi ddim i hynny. Ddes i ddim â'r haint nôl gyda fi. Yr unig beth ddilynodd fi adre oedd jôcs peswch gwael, ond efallai bod rhaid i fi ddisgwyl hynny!

# Newyddion o'r Eglwysi

## EBENESER

Llongyfarchiadau i blant a phobl ifanc yr Eglwys a fu'n cymryd rhan mewn amrwyiol ffyrdd yn Eisteddfod Yr Urdd eleni. Dymuniadau gorau hefyd i'n pobl ifanc sydd newydd sefyll arholiadau TGAU a Lefel A.

Aeth Cymdeithas y Chwiorydd ar eu gwibdaith flynyddol eleni i'r Cotswolds ar ddydd Iau 15 Mai. Roedd hi'n daith ardderchog ac yn ddiwrnod i'w fwynhau.

Paratowyd cinio yn nhŷ Arthur a Rosaline Bowen i godi arian at yr Eglwys ar ddydd Iau 5 Mehefin. Cafwyd gwledd ddanteithiol a mwy na digon o fwyd blasus.

Cynhaliwyd taith gerdded noddedig yr ysgol Sul ar ddydd Sadwrn 21 Mehefin. Bu'r plant a phobl ifanc yn cerdded a beicio o Ystum Taf ar hyd llwybr yr afon Taf bron mor bell â Thongwynlais, ac yna yn gloddesta wedi dychwelyd.

Daeth Siôn Meredydd, cynrychiolydd elusen Tearfund Cymru, atom yn y Cwrdd Gweddi Cenhadol yn ddiweddar i rannu gwybodaeth am beth o waith a phrosiectau'r elusen weithgar hon ar hyd a lled y byd.

Ar fore dydd Sul 29 Mehefin daeth holl eglwysi Annibynnol Cyfundeb Dwyrain Morgannwg at ei gilydd i gydaddoli yn neuadd Ysgol Gyfun Llanhari. Trefnwyd hyn eto eleni yn sgil llwyddiant cyfarfod y llynedd.

## MINNY STREET

· Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r Parchg Ddr Gwilym ap Robert a'r teulu yn dilyn marwolaeth **Mrs Beryl ap Robert**.
· Dymunwn yn dda i Lisa (merch Brian a Glenys Evans, Llysfaen) a **Neville Graham** ar eu priodas yn Llundain ym mis Mai. Dymuniadau gorau hefyd i ddau arall o'n haelodau, **Dewi Owen** a **Nuria Marquez Almuina**, yn dilyn eu priodas yn Sbaen ym Mehefin.
· Croeso cynnes iawn i **Alice Megan**, merch fach i Geraint a Dawn Warrington ac wyres gyntaf i Aerona Warrington. Dymunwn yn dda i'r teulu.

Er gwaethaf y tywydd garw, ac er mai colli fu hanes Minny Street, cawsom noson hwyliog iawn ar lain griced Ysgol y Gadeirlan nos Lun, 16 Mehefin, pan fu tîm criced "dod at ei gilydd ar y funud olaf!" Minny Street yn chwarae yn erbyn tîm profiadol (adroddwyd eu bod yn ymarfer yn y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd*!) Salem. Ac i'r rhai sydd yn well ganddynt gerdded, cafwyd taith lwyddiannus dros fynydd Caerffili dan arweiniad John Albert ar ddydd Sadwrn crasboeth ganol Mehefin.

Daeth cyfarfodydd canol wythnos yr ieuenctid i ben dros wyliau'r haf gyda barbeciw yng nghartref ein Gweinidog. Diolch i Owain a Lona am eu lletygarwch - cafodd bawb ddigon i fwyta a chyfle i fwynhau cwmnïaeth arbennig. Mwynhad oedd yr eitem flaenaf ar yr agenda ddiwedd Mehefin hefyd gyda'r "Bowlio Deg i Bawb" - cyfle i'r ifanc a'r hen ddangos eu doniau yn nghanolfan *Cardiff Megabowl* ar Heol Casnewydd.

## EGLWYS WEST GROVE

Yn gynharach eleni, ymddeolodd y Parchedig Eric Jones ar ôl cyfnod o dros ddeng mlynedd ar hugain yn weinidog ar Eglwys Undodaidd West Grove. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n gyfrifol am y ddarpariaeth Gymraeg yn West Grove yn ogystal â threfnu'r gwasanaethau haf yng Nghapel Penrhiw, Sain Ffagan. Bu hefyd â gofal capeli Undodaidd Aberdâr a Chefncoedycymer. Y tu allan i'w filltir sgwâr, fe'i hanrhydeddwyd drwy ei ddewis yn Llywydd Cynulliad Cyffredinol Undodiaid ac Eglwysi Cristnogol Rhydd y Deyrnas Unedig yn 1989-90.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd teyrnged yn y tair eglwys. Ar ddiwedd y cwrdd Cymraeg yn Eglwys West Grove, talwyd teyrnged i gyfraniad sylweddol Eric Jones i fywyd Cymraeg ei gylch. Bu'n llywodraethwr Ysgol Gyfun Rhydfelen (a sawl ysgol Gymraeg arall) ac am dros ugain mlynedd yn gadeirydd RHAG ym Morgannwg Ganol - ac yn gadeirydd cenedlaethol o 1988 hyd 1991. Yn amlwg yng ngweithgareddau'r Urdd, bu hefyd yn gefn i fywyd cerddorol ac eisteddfodol y cylch. Mae'n awdur nifer o gyhoeddiadau Cymraeg ac yn gyfarwyddwr Gwasg y Fflam. Ef yw golygydd *Clochdar* - papur bro Cwm Cynon - ers dros bedair blynedd ar ddeg bellach. Ei blentyn ef yn bennaf yw'r Babell Undodaidd ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol.

Estynnwyd iddo ef, ac i Anne ei wraig, ddymuniadau diffuant am ymddeoliad hir a dedwydd.

## EGLWYS Y CRWYS

Tawel yw gweithgareddau llawer o eglwysi yn ystod tymor yr haf. Serch hynny, yn Eglwys y Crwys cafodd yr aelodau gyfle i fwynhau nifer o ddigwyddiadau amrywiol a gwerthfawr.

Bu'r daith gerdded o gwmpas ardal fynyddig Soar y Mynydd ar ddydd Sul, 22 Mehefin yn llwyddiant mawr a chafwyd bendith o fod yn bresennol mewn oedfa a arweiniwyd gan y Parchg Emyr Lyn Evans o Gaerfyrddin. Roedd y tywydd yn berffaith, y trefniadau yn hwylus a'r croeso yn y tŷ cwrdd ym mhlygion y mynyddoedd yn gynnes a charedig. David Jones oedd pensaer y daith ac fe gafodd gyfle i ddweud gair o gyfarchiad yn ystod y gwasanaeth.

Ddydd Sadwrn, 28 Mehefin trefnodd y Grŵp Merched y Te Mefus blynyddol yng ngardd cartref Mr John Lloyd a'r teulu yn Heol Tŷ Gwyn. Mae'r trefniant hwn wedi bod ar galendar yr Eglwys ers rhai blynyddoedd bellach ac mae dyled yr Eglwys i John yn fawr iawn. Eleni gwnaethpwyd elw o £380 ac fe gyflwynir y swm anrhydeddus hwn tuag at yr ymchwil yn erbyn cancr.

Mewn seremoni fechan o flaen plant yr Ysgol Sul derbyniodd yr arolygydd Ceri Innes-Parry bum llyfr *Ffordd Bywyd*, yn rhodd gan Eirwen a Keith Jones. Fe'u rhoddwyd fel arwydd o ddiolch a gwerthfawrogiad ar achlysur bedyddio eu hŵyr bach, Deiniol Knight. Y Gweinidog, y Parchg Glyn Tudwal Jones, yw awdur y gyfrol hon ac fe'i hysgrifennwyd fel llawlyfr at ddefnydd Cristnogion ifanc.

Nos Wener 4 Gorffennaf, bu Cwmni Drama Bro'r Eisteddfod yn chwarae *Parau Cymysg* ar lwyfan theatr Burleigh yng Nghasnewydd fel rhan o ddathliadau cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol 2004. Defnyddiwyd Theatr y Crwys ar gyfer yr ymarferion ac mae nifer o'r actorion yn aelodau yn yr Eglwys.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG

**Achlysur arbennig**

Ar nos Iau 12 Mehefin cynhaliwyd achlysur arbennig yng nghartref y Parchg a Mrs Gwynn Williams i ddymuno'n dda i dair o'n plith sy'n gadael yr eglwys yn ystod yr haf. Dymunwyd yn dda i Catherine Taylor a'r plant, fydd yn ymuno â'i gŵr, Ian Taylor, yn Aberystwyth; i Siriol Davies, a fydd yn priodi ym mis Awst; ac i Sally-Anne Protheroe a fydd yn priodi yn ystod yr un mis.

**Priodasau**

Pob dymuniad da i Siriol Davies, Ger y Fro, Yr Eglwys Newydd, ar ei phriodas â'r Parchg Dewi Tudur, yn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg yng Nghaerdydd ar ddydd Mercher 27 Awst. Pob dymuniad da i'r ddau wrth iddynt ymgartrefu yn Nhalsarnau, Harlech.

*Parhad ar dudalen 11*

menter caerdydd

### Noson i Ddysgwyr

Nos Iau, 26 Mehefin trefnwyd noson ar gyfer dysgwyr y ddinas gan Fenter Caerdydd yn Bar BSB yn y dref. Cafwyd noson lwyddiannus gyda 'Gwenno' yn canu yn Gymraeg a Chernyweg. Roedd y noson hefyd yn gyfle i rai o ddysgwyr Cymraeg y ddinas dderbyn eu tystysgrifau TGAU a Lefel 'A'. Hon oedd yr ail noson oedd wedi ei threfnu gan y Fenter ar gyfer y Dysgwyr eleni ac rydym yn bwriadu trefnu noson arall ar gyfer y Dysgwyr yn gynnar yn mis Hydref.

### Llongyfarchiadau'r Mis i Lorenzas!

Yn ddiweddar, drwy gefnogaeth Menter Caerdydd, enillodd Bwyty Eidalaidd Lorenzas 'Fwydlen Ddwyieithog y Mis'. Cyflwynwyd tystysgrif i berchennog Lorenzas, Carmine Mormile, gan Nia Parry, un o aelodau diweddaraf Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a wyneb cyfarwydd ar raglenni *Welsh in a Week* a *cariad@iaith*.

Os hoffech fwy o wybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes cysylltwch â Leah Rhydderch yn Swyddfa'r Fenter 02920 565658.



### Trip Bws i'r Eisteddfod Genedlaethol

Trip i Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Maldwyn a'r Gororau 2003

Dydd Gwener, Awst 8fed Oedolyn £10 Plentyn £7.50

Bws yn gadael Caerdydd am 8.30 y.b. ac yn dychwelyd i Gaerdydd am 8.00 y.h.

Os am archebu tocyn, cysylltwch ag Angharad Thomas, Menter Caerdydd: 02920 565658.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## NEWYDDION YR URDD

Llongyfarchiadau i bawb a gynrychiolodd Gaerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2003, Tawe, Nedd ac Afan. Rydym yn dymuno'n dda i bawb fu'n cystadlu, ac yn diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant yr holl eisteddfodau cylch a sir a gynhaliwyd yn ystod y misoedd diwethaf.

### Rygbi

Llongyfarchiadau i Ysgol Gynradd Llanishen Fach am ddod yn drydydd yn y Twrnamaint Rygbi Cynradd Cenedlaethol yn Llanelli ar 10 Mai 2003. Cynrychiolodd yr ysgol Gaerdydd a'r Fro ar ôl brwydro yn erbyn Ysgol yr Eglwys Newydd yn y rownd derfynol ar gaeau Llandaf ar 31 Mawrth.

### Pêl-droed a Phêl-rwyd

Diolch i dîmau pêl-droed merched a bechgyn Ysgol Gynradd Eglwys Wen am gynrhychioli Caerdydd a'r Fro yn y Chwaraeon Cynradd Cenedlaethol yn Aberystwyth ar 17 Mai 2003. Bu tîm pêl-rwyd Ysgol Gynradd Marlborough yn ein cynrychioli hefyd, gan fod yn anlwcus i golli yn y rownd derfynol i Ysgol Maes y Coed, Pontypridd.

### Adrannau Ail Iaith & Gweithdy Mosaig

Bu rhai o aelodau cynradd ail iaith yr Urdd yng Nghaerdydd yn greadigol iawn yn ystod gwyliau'r Pasg! Cafodd plant o wahanol ysgolion gyfle i wneud wyau mosaig yn Neuadd Celfyddydau Llanofer gyda chymorth Kate Derbyshire, un o grefftwyr mwya llwyddiannus yr ardal. Dangosodd Kate, sydd newydd orffen mosaig enfawr yn Ysbyty Dewi Sant, y grefft o ddewis a gosod teils er mwyn creu siapiau hyfryd a lliwgar. Roedd y darnau gorffenedig yn werth eu gweld ac roedd pawb yn falch o'r gwaith y cawsant fynd ag ef adref gyda nhw.

### Adran Ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd

Mae Adran Ysgolion Cynradd Caerdydd wedi bod yn cwrdd pob nos Iau yng Nghanolfan Yr Urdd er mis Hydref 2002. Erbyn hyn mae dros 50 o aelodau yn mwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau dan arweiniad gwirfoddolwyr o Brifysgol Caerdydd. Bydd yr Adran yn cwrdd am y tro olaf ar 10 Gorffennaf cyn torri dros yr haf. Bydd yr Adran yn ailgychwyn ym mis Medi, a gobeithiwn groesawu mwy o aelodau blwyddyn 4,5 a 6 i fwynhau cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Gwasanaeth Neges Heddwch ac Ewyllys Da

Bu 500 o blant a phobl ifanc ysgolion cynradd ac uwchradd Caerdydd yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ddydd Mawrth 20 Mai 2003. Roedd disgyblion o ysgolion uwchradd Caerdydd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth trwy ddarllen y neges mewn gwahanol ieithoedd, yn cynnwys Albaneg, Bengali ac Urdu. Lluniwyd y neges eleni gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Gŵyr, ac fe gyflwynwyd copi o'r neges a'r poster i Tony Blair ddydd Llun 12 Mai 2003 yn 10 Downing Street.

Yn ystod y gwasanaeth gwnaed casgliad tuag at Ymgyrch Croeso Calcutta, sef ymgyrch ar y cyd rhwng Urdd Gobaith Cymru a Chymorth Cristnogol. Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc Cymru am fywydau plant a phobl ifanc yn Calcutta, India.

*Am fwy o wybodaeth am weithgareddau'r Urdd yng Nghaerdydd a'r Fro cysylltwch â James Rhys Williams, Swyddog Datblygu Caerdydd a'r Fro.*

# Plasmawr

### Storey Arms

Yn ystod wythnos yr 2il – 6ed o Fehefin, fe aeth criw o ddisgyblion Addysg Gorfforol Blwyddyn 10 i Storey Arms am wythnos o antur. Roedd y profiad o ddod o hyd i'r llety yn ddigon o sialens ynddo'i hun gan ein bod yn aros mewn 'bunkhouse' y tu allan. Wedi setlo, dyma gychwyn ar y daith hir i ben Corn Du a Phen y Fan a phawb yn diolch am dywydd braf ar gyfer y daith.

Taith gerdded arall oedd yn ein disgwyl drannoeth, a hynny ar hyd afon lle bu'n rhaid magu hyder i groesi'r dŵr a mentro trwy'r twll du cyn neidio oddi ar naid y ffyliaid i orffen y dydd yn wlyb domen!

'Gwlyb' oedd gair mawr y ddau ddiwrnod canlynol hefyd wrth ganwio fesul dau i lawr yr afon ac ogofeuo ym Mhorth yr Ogof. Er i ambell aelod o'r criw ddiflannu wrth groesi'r mynydd liw nos (bai y cwmpawd mae'n debyg!), cyrhaeddodd pawb nôl yn ddiogel brynhawn Gwener – rhai yn flinedig, eraill â thraed dolurus ond pawb â gwên lydan ar eu hwynebau!

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gynrychiolodd yr ysgol yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Llongyfarchiadau arbennig i'r canlynol: y criw a ddaeth yn 1af yn y gystadleuaeth Detholiad o Sioe Gerdd. Perfformiwyd 'Nia Ben Aur'; Daniel Hughes, Rhys John a Sara Hobday a ddaeth yn 2il yn yr Ymgom 12-15; Cyflwyniad Dramatig 12-15 'Dan y Wenallt' a ddaeth yn 2il; Nanw Williams a ddaeth yn 2il yn y gystadleuaeth Unawd Telyn 15-19 ac i Stephanie Dyer, Rhodri Davies, Elen Stephenson, Meilir Hughes, Owain Hughes, Emyr John a Huw Griffiths, aelodau'r Ensemble 15-19 a ddaeth yn 2il hefyd.

Hoffai'r ysgol longyfarch tîm pêl-droed Blwyddyn 7 sy'n bencampwyr Cynghrair Gorllewin Caerdydd. Llwyddodd y tîm hefyd i ennill Cwpan Caerdydd a'r Fro ar y cyd gydag Ysgol Fitzalan ar ôl iddynt gael gêm gyfartal 1-1 yn y rownd derfynol. Pob lwc iddynt ym Mlwyddyn 8!



Tîm Pêl-droed Blwyddyn 7

# Bro Morgannwg



### Llwyddiant ym Margam

Llongyfarchiadau i Barti Merched dan 15 oed Ysgol Bro Morgannwg am gipio'r wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Margam! Bu'r Band Roc hefyd yn fuddugol - am yr ail flwyddyn yn olynol - yng nghystadleuaeth y Gân Gyfoes dan 15.

Enillodd nifer o unigolion o'r ysgol wobrau yn y cystadlaethau Celf a Chrefft dan 15 oed, oedd i gyd ar y thema 'Ar Wib':

Iola Jenkins (Bl. 7), 1af Gwaith Creadigol 2D
Kate Galea (Bl.8) 2il Gwaith Creadigol 3D
Lili Davies (Bl.7) 2il Graffeg Cyfrifiadurol
Shannon Haswell (Bl. 8) 3ydd Gwaith Creadigol 2D

Da iawn chi i gyd.

### Pencampwragedd Mathemateg Cymru!

Ymddengys fod rhywbeth yn y dŵr ym Mro Morgannwg sy'n gwneud i'n merched ragori mewn mathemateg! Enillodd nid un, nid dwy, ond tair o ddisgyblion Blwyddyn 8 fedal aur mewn cystadleuaeth fathemateg genedlaethol ddiweddar - allan o'r 10 medal a oedd ar gael drwy Gymru gyfan. Llongyfarchiadau gwresog i Anna Carling, Morfydd Clarke a Michelle Ritter ar eu llwyddiant.

### Cyfathrebu gydag Ewrop

Mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill grant ariannol o dan y Cynllun Comenius i'n cynorthwyo i gwblhau prosiect Ewropeaidd dros gyfnod o dair blynedd. Sefydlwyd cysylltiadau â'r Leininger Gymnasium yn Grünstadt, yr Almaen ac ysgol France Preseren yn Kranj, Slofenia. Nod y prosiect yw dysgu am fywyd pobl ifanc yn yr Almaen a Slofenia, a'u haddysgu hwy am fywyd ieuenctid yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar rannu gwybodaeth am ddiddordebau a hamdden. Bwriadwn ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i greu cylchgronau, fideos a gwefan ar y cyd dros y tair blynedd nesaf.

Dechreuwyd ar y prosiect ym mis Ionawr eleni ac eisoes mae criw brwdfrydig o Flwyddyn 9 wedi ymgymryd â'r her o drefnu cynnwys y tri chylchgrawn ar ffasiwn, chwaraeon a cherddoriaeth a mynd ati i ddylunio logo ar gyfer y clawr. Y bwriad yw i'r prosiect adlewyrchu syniadau ac agweddau'r disgyblion.

Mae criw o Flwyddyn 9 hefyd yn paratoi i deithio i Grünstadt cyn diwedd y tymor, ar ail hanner y daith gyfnewid a ddechreuodd fis Medi diwethaf pan fu disgyblion ysgol Leininger Gymnasium draw yng Nghymru gyda ni. Bu'r Almaenwyr a'r Cymry ifanc yn cadw cysylltiad yn ystod y flwyddyn drwy lythyru ac ehebu, ac mae disgyblion Ysgol y Fro yn edrych ymlaen yn fawr at y profiad o dreulio ychydig o ddyddiau gyda'u ffrindiau Almaeneg a'u teuluoedd.

### Adroddiad penigamp i
# Ysgol Pen-y-Garth

Mae Ysgol Pen-y-Garth wedi derbyn adroddiad penigamp yn dilyn arolwg a gynhaliwyd gan Estyn yn ystod tymor y gwanwyn. Mae'r ysgol yn hapus dros ben â chynnwys yr adroddiad a'r prif ganfyddiadau. Roedd y safonau yn 98% o'r gwersi a welwyd yn foddhaol neu'n uwch, gydag 80% yn dda. Yn ôl yr arolygwyr, "... mae'r staff yn hyrwyddo gwerthoedd da a safonau moesol drwy'r ysgol ... mae'r ysgol yn darparu amgylchfyd positif a chefnogol lle mae'r disgyblion yn hyderus, hapus ac yn cael eu parchu, ac mae ansawdd perthnasau o fewn yr ysgol yn dda."

Arfarnwyd y pynciau craidd (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) yn dda heb unrhyw ddiffygion arwyddocaol. Yng Nghyfnod Allweddol 1, arfarnwyd pedwar o bynciau sylfaenol yn dda. Yng Nghyfnod Allweddol 2, roedd chwech o'r wyth pwnc sylfaenol yn dda.

Roedd darpariaeth ar gyfer plant dan 5 oed yn dda ac yn ôl yr arolygwyr, "... gwna'r plant gynnydd da yn y chwe maes dysgu."

Yn ôl yr adroddiad, roedd canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 yn uwch na'r canlyniadau cenedlaethol ym mhob un o'r pynciau craidd. Yng Nghyfnod Allweddol 1 roedd y canlyniadau yn gyfartal neu'n uwch yn y Gymraeg a Gwyddoniaeth.

Mae'r ysgol yn darparu addysg o safon uchel. Ond nid yn unig mae canlyniadau'r ysgol yn dda, mae'r ysgol hefyd yn perfformio'n dda mewn amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol megis chwaraeon a cherddoriaeth. Dylid llongyfarch yr athrawon, holl staff yr ysgol, y llywodraethwyr, y rhieni ac, wrth gwrs, y plant am eu holl waith caled a'u hymrwymiad tuag at yr ysgol.

Mae copïau o'r adroddiad ar gael yn yr ysgol.

# Ysgol Uwchradd Caerdydd

Llongyfarchiadau mawr i Richard Porter (Blwyddyn 13) ar ennill yr ail wobr yng nghystadleuaeth Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Yn ogystal ag ysgrifennu nifer o ddarnau rhyddiaith, roedd rhaid iddo siarad am nifer o wahanol bynciau gyda'r beirniaid hefyd. Rydym yn falch iawn ohono.

Llongyfarchiadau hefyd i grŵp y ddawns greadigol ym Mlwyddyn 10 ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth rhwng 15-19. Mrs Angell fu'n gyfrifol am eu hyfforddi. A Mrs Bethan Williams fu'n gyfrifol am y grŵp ar y diwrnod.

Daeth Patrick Bidder yn drydydd yn yr unawd llinynnol rhwng 15-19 mewn cystadleuaeth o safon uchel dros ben.

Yn y gystadleuaeth ryddiaith i Flynyddoedd 10 ac 11 llwyddodd yr ysgol i gipio'r tair gwobr! Daeth Beth Smith yn gyntaf, Imran Jina yn ail a Laura Smallcombe yn drydedd. Mae'r tri'n cael eu dysgu gan Mrs Nerys Roberts.

Yn ogystal â chystadlu, aeth llond bws hefyd am ddiwrnod o fwynhad i'r eisteddfod, a chafwyd diwrnod llawn o hwyl a hamdden. Yn ogystal â chyfarfod â'r sêr, cafodd y disgyblion ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch hyfryd.

# Ysgol y Wern

Mae hi wedi bod yn dymor prysur a llwyddiannus yn Ysgol y Wern. Mae ein tîm Cwis Diogelwch y Ffordd Fawr wedi profi llwyddiant ysgubol yn ddiweddar. Eleni eto, am y pedwerydd tro yn olynol, tîm y Wern yw pencampwyr y sir. Fe wnaeth dros hanner cant o ysgolion gystadlu eleni yn y gystadleuaeth boblogaidd hon. Cyrhaeddodd tîm y Wern y rownd derfynol a gynhaliwyd ar 4 Mehefin, gan gyrraedd y brig ac ennill cystadleuaeth y sir unwaith eto! Yn dilyn eu llwyddiant yn y sir aeth y tîm ymlaen i gystadlu yn y gystadleuaeth genedlaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae aelodau'r tîm i'w gweld yn y llun: rhes gefn: Manon Jenkins; rhes flaen: Gwenfair Hawkins, Ewan Thomas, Thomas Harries a Bethan Phillips.



Ymfalchïwn hefyd yn llwyddiant ein dawnswyr. Llongyfarchiadau i'r grŵp dawnsio a ddaeth yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Margam. Y dawnswyr o'r Wern a ddawnsiodd ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd oedd Owen Best, Nia Batten, Alex Richards, Becky Edwards, Enfys Cruchley-Jones, Alex Harrison, Gwen Davies, Angharad Doull, Ffion Jones, Naomi Davies a Llinos Jones.

Yn dilyn llwyddiant ein tîm hoci yn ddiweddar, a ddaeth yn gyntaf dros Gymru, cafodd Rhys Gowman (Blwyddyn 6) ei ddewis i chwarae yng ngharfan Cymru o dan 13 oed. Mae Rhys wedi chwarae sawl gêm eisoes dros ein gwlad. Tipyn o gamp iddo! Dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

Yn olaf, pleser oedd derbyn gwahoddiad i gôr yr ysgol ganu i lawr yn y Bae i groesawu Iolo Williams a'i gyd-gerddwyr ar daith noddedig Tŷ Gobaith / Tŷ Hafan.

# Ysgol y Berllan Deg

Casglwyd £1300 tuag at waith ymchwil Ffederasiwn Prydeinig y Galon gan blant Ysgol y Berllan Deg. Codwyd yr arain drwy sgipio noddedig ar iard yr ysgol. Yn y prynhawn, daeth capten tîm rygbi Caerdydd, Emyr Lewis i wobrwyo'r plant â thystysgrifau. Bu'r diwrnod yn llwyddiant ysgubol a diolchwn i Ffrindiau'r Ysgol am gyfrannu'r lluniaeth ac i Sainsbury's am y dŵr a'n cadwodd ni i fynd! Edrychwn ymlaen at gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau o'r fath ar safle ein hadeilad newydd ym mis Medi.

# Glantaf

## Ffarwel i Ffrind

Mi fydd un o ddisgyblion disgleiriaf yr ysgol yn ein gadael ni ar ddiwedd y tymor. Llwyddodd Owain Williams o flwyddyn unarddeg i ennill un o bedair ysgoloriaeth i Goleg Eton, Windsor. Bu'n ffodus i ennill un o ysgoloriaethau mwyaf cystadleuol y wlad. Bydd yn astudio llenyddiaeth Saesneg, hanes, cerddoriaeth yn ogystal a diwinyddiaeth yno. Mae Owain yn gricedwr, ac yn organydd dawnus, a bydd yn siwr o elwa o gyfleusterau eang y coleg. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei yrfa academaidd newydd, a phob hapusrwydd yn ei ysgol newydd, fel llysgennad i ni'r Cymry yno.

**Tomos Dafydd**

## Esiteddfod Nedd ac Afan 2003

Eisteddfod wych arall i Ysgol Glantaf. Yn awyrgylch hyfryd Parc Margam daeth Glantaf i'r brig mewn nifer fawr o gystadlaethau a llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion talentog fu'n cystadlu. Rhaid diolch i'w hathrawon yn ogystal am yr holl waith paratoi a'r amynedd wrth hyfforddi a dysgu'r disgyblion, ac wrth gwrs am eu trefnu ar y maes yn ystod yr wythnos. Diolch hefyd wrth gwrs i'r holl rieni am eu cymorth - hebddynt byddai'r llwyddiant wedi bod yn llai. Llongyfarchiadau felly i'r canlynol:

| | |
|---|---|
| 1af | Marged Jones, Unawd Llinynnol 12-15 oed (Cello) |
| 1af | Alice Reed, Unawd Piano 15-19 oed |
| 1af | Parti Bechgyn 12-15 oed |
| 1af | Tîm Gymnasteg Bechgyn 12-15 oed |
| 1af | Grŵp Dawnsio Disgo 15-19 oed |
| 2il | Steffan Jones, Unawd Bechgyn 15-19 oed |
| 2il | Marged Jones, Unawd Piano 12-15 oed |
| 2il | Selyf Shapey, Unawd Llinynnol 15-19 oed (Ffidil) |
| 2il | Gethin Aled Jones, cyfansoddi Cerdd Dant dan 19 oed |
| 2il | Côr Bechgyn TB dan 19 oed |
| 3ydd | Alice Reed, Unawd Telyn 15-19 oed |
| 3ydd | Luke Bafico, Gymnasteg Unigol Bechgyn 12-15 oed |
| 3ydd | Cerddorfa/Band dan 25 oed |
| 3ydd | Tîm Siarad cyhoeddus 15-19 oed |
| 3ydd | Grŵp Ymgom 15-19 oed |

Braf hefyd oedd gweld cyn-ddisgybl, Iestyn Shapey, yn ennill 2il wobr yn y gystadleuaeth Unawd Offerynnol 19-25 oed, a nifer o gyn-ddisgyblion eraill, oedd yn cystadlu fel aelodau o Aelwyd CF1, yn cael llwyddiant mewn sawl cystadleuaeth.

Llongyfarchiadau i chi oll!

## O Gaerdydd i Cape Town

Ar 16 Gorffennaf eleni, bydd grŵp o 24 o ddisgyblion Glantaf yn cychwyn ar daith rygbi unigryw i Dde Affrica, gyda'r gobaith o weld llwyddiant ar y meysydd rygbi, yn ogystal â phrofi'r cyfle bythgofiadwy o ymweld ag un o wledydd prydferthaf ein byd. Bydd y disgyblion (o flynyddoedd unarddeg a deuddeg), o dan arweiniad tri o athrawon yr ysgol, yn teithio i Pretoria ar gyfer yr wythnos gyntaf, lle byddant yn mynychu gêm ryngwladol De Affrica yn erbyn Seland Newydd. Byddant yna yn ymweld â Cape Town yn yr ail wythnos, cyn troi am adref, gan gyrraedd nôl yng Nglantaf ar 31Gorffennaf. Dymunwn bob llwyddiant iddynt ar y daith gyffrous hon.

**Owen John**


## Ffarwelio

Dymunwn yn dda iawn i Miss Catrin Lewis o'r adran Dechnoleg a Miss Anna Nicholas o'r adran Saesneg wrth iddynt ymadael â ni ar ddiwedd y tymor. Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd i'r ddwy yn eu swyddi newydd. Dymunwn yn dda hefyd i Mr. Siôn Wyn Davies wrth iddo ein gadael i ymuno ag Ysgol Plasmawr fel pennaeth yr adran Chwaraeon.

Ffarweliwn hefyd â Mr. Gwyn Griffiths wrth iddo ymddeol ddiwedd y tymor hwn. Bu'n bennaeth yr adran Anghenion Arbennig am flynyddoedd lawer ac yn ddiweddar yn aelod o Uwch Dîm Rheoli'r ysgol. Diolch iddo am ei wasanaeth i'r ysgol dros gyfnod hir, a dymunwn yn dda iawn iddo i'r dyfodol. Mae'n siwr y bydd yn braf cael mwy o amser i fwynhau ar y cwrs golff.

Llongyfarchiadau i Miss Sally Anne Protheroe o'r adran Hanes ar ei dyweddiad a phob dymuniad da iddi ar ei phriodas ym mis Awst. Bydd yn ein gadael ac yn symud i fyw yn Glasgow.

## Ffarwel i Mr. Thomas



Ddiwedd y tymor yma, yn dilyn wyth mlynedd yn y swydd, bydd Mr. Huw Thomas yn ymddeol fel prifathro Glantaf. Bu'r cyfnod yma yn un o ddatblygiadau yn hanes yr ysgol. Bellach fe addysgir pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwelwyd adeiladau labordai newydd a bloc y celfyddydau. Ffrwyth gweledigaeth a brwdfrydedd Mr. Thomas yn sicr oedd y datblygiadau hyn.

Pan ofynnwyd iddo gan brif fachgen yr ysgol sut yr hoffai gael ei gofio, ei ateb oedd "Fel addysgwr a Chymro da a oedd yn hoffi wynebu sialens." Yn sicr gallwn dystio i wirionedd y geiriau hyn.

Dymunwn yn dda iawn iddo wrth iddo ymddeol, a diolchwn am ei frwdfrydedd a'i ymroddiad. Fodd bynnag, ni fydd yn segur gan ei fod yn bwriadu ymchwilio i dwf yr ysgolion Cymraeg yn y de-ddwyrain. Gobeithio hefyd y bydd yn gallu mwynhau ychydig o seibiant wrth fwynhau ambell wydraid o win!

## Cymdeithas Cyn-ddisgyblion Glantaf

Oes hen luniau, erthyglau, tapiau neu ffilmiau yn ymwneud ag Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn llechu yn eich llofftydd, yn cuddio mewn cypyrddau neu'n casglu llwch ar eich silffoedd?

Mae'r gymdeithas yn paratoi noson i ddathlu pen-blwydd yr ysgol yn 25 oed eleni ac yn awyddus i drefnu 'Arddangosfa Atgofion'. Os oes gennych unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb, cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor:

| | | |
|---|---|---|
| Non Jones | 07790 075306 | nonjones@yahoo.com |
| Sian E Thomas | 029 20 485043 | |
| Eleri Morgan | 07860 254106 | Eleri_Morgan_2000@yahoo.co.uk |

Caiff pob 'benthyciad' ofal mawr a'i ddychwelyd at y perchennog ar ôl yr arddangosfa.

Os ydych chi yn gyn-ddisgybl neu'n athro (o'r gorffennol neu'r presennol), cofiwch y gallwch archebu tocynnau ar gyfer y dathliad.

Y lleoliad: **Clwb Criced Morgannwg**, Gerddi Soffia, Caerdydd

Y dyddiad: **Nos Sadwrn, 25 Hydref 2003**

Pris y tocyn: **£15.00** (neu £20.00 yn cynnwys cyfraniad at y gymdeithas).

Anfonwch siec am £15.00/£20.00 yn daladwy i Gymdeithas Cyn-ddisgyblion Glantaf at:

Y Trysorydd, 54 Angus Street, Y Rhath, CAERDYDD CF24 3LY

# Orig dan haul y Môr Canoldir - heb adael Caerdydd

## Yr Ardd Eidalaidd, Amgueddfa Werin Cymru

Am drigain mlynedd bu'r ardd Eidalaidd yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yn ddiffeithwch, ond fe'i hadferwyd i'w gogoniant cynhenid a'i hagor i'r cyhoedd ym mis Mai eleni. Ar un wedd mae hi'n anghydnaws mewn sefydliad sy'n gynheiliad diwylliant gwerin, ond mae hi'n ychwanegiad diddorol i'r lle ac yn enghraifft o steil wahanol mewn cynllunio gardd.

Mae'r ardd ar gyrion y safle ac fe gymer ddeng munud dda i chi gerdded yno o'r brif fynedfa ond gallwch fynd ar y trên bach hyd at ychydig lathenni o'r drws. Ie, drws pren yn y wal yw'r fynedfa i'r ardd ac unwaith y codwch chi'r gliced allwch chi ddim llai na sylwi ar y nodweddion hynny sy'n amlwg mewn gerddi Eidalaidd - y llwybrau carreg llydan, llinellau sythion ac onglau sgwâr, grisiau llydan glaswelltog, terasau, pwll dŵr hirsgwar enfawr, potiau mawrion a borderi llawnion. Hyn i gyd oddi mewn i furiau carreg uchel. Ac, wrth gwrs, y lliwiau glas, melyn gwan ac arian.


Nid llecyn i ruthro drwyddo yw hwn ond hafan fach lle gallwch chi ymlacio ac ymdawelu yn sŵn y chwe phistyll sy'n goferu i ddŵr y pwll. Yn yr Eidal fe allech chi fod yn weddol siwr o gael awyr las ddigwmwl uwchben a'r haul yn llathru wyneb y dŵr yn y pwll, a thrwy lwc dyna fel yr oedd hi pan drois i mewn ryw fore Sadwrn ac eistedd ar un o'r amryw feinciau sy'n eich cymell i oedi yng nghysgod y wal.

Ar ôl y cyfnod o ddadwreiddio'r coed oedd wedi ymgordeddu drwy'r llwybrau a'r cerrig, clirio'r llanast, ailbwyntio'r waliau â rendr calch, ailadeiladu'r grisiau, gosod y cerrig ar hyd y llwybrau, tacluso'r pwll, ail-greu'r lawntiau a'u hadu a threfnu'r borderi o'u deutu ... fe ddaeth y dasg o blannu. Wedi'r cwbl, dyw'r blodau sy'n ffynnu mewn pridd sych a sâl gyda'i ddraeniad da dan haul crasboeth ddim yn mynd i fod yn gysurus iawn yn ein tywydd cyfnewidiol ni a'r pridd cyfoethog, llaith, sy'n cymell deiliach yn hytrach na blodau. Ond fe roddwyd cynnig arni, gan gadw at y tri lliw - glas, hufen ac arian.

Roedd blodau Traed yr Ehedydd (*Delphinium*) a'r Clychlys (*Campanula*) yno yn eu holl ogoniant; y Lafant hefyd, Mintys y Gath a'r Ysgallen Ganpen (*Eryngium*) ... ac yna'r blodau lliw hufen - y *Sisyrinchum* gyda'i ddail llwydlas fel cleddyfau a'r spigau o flodau fel rhesi o utgyrn bach. Yn isel wrth eu traed roedd carped o Fynawyd y Bugail, *Johnson's Blue*, a dail Clust yr Oen yn glustogau melfedaidd lliw arian.

Blodau i greu effaith ddramatig yw'r Yucca a Lili'r Affrig (*Agapanthus*) ac fe fydd yn olygfa werth ei gweld dros yr wythnosau nesaf pan fydd y rhain yn blodeuo yn eu tybiau.

Synnais weld mai dim ond ugain modfedd sgwâr yw maint y potiau "Versailles" lle plannwyd y coed orennau. Mae'n rhaid eu bod yn cael eu hailblannu a'u tocio pan symudir nhw dan do cyn y gaeaf, ond maen nhw'n rhoi uchder i'r patrwm o fewn yr ardd ac yn addurniadol. O sôn am greu uchder, fe gymer rai blynyddoedd cyn i'r rhosod-dringo guddio'r waliau. Gosodwyd y gwifrau i'w cynnal eisoes ac mae ambell rosyn wedi ei blannu. Ond rhaid dod o hyd i'r union fath o rosynnau a



Llun a dynnwyd tua 1920 yn dangos Andrew Pettigrew, mab Hugh Pettigrew, y pen-garddwr a gynlluniodd yr ardd wreiddiol, a'i gi, yn chwarae mewn cwch bach ar bwll yr Ardd Eidalaidd.

dyfwyd yn wreiddiol, a'u lluosogi drwy gymryd toriadau.

Yng ngwres yr haul fe ges i fy nhemtio i eistedd ar lintel lydan gynnes y pwll a throchi 'nhraed. Ond, dyw Ledis ddim yn gwneud hynny !

Ar un adeg fe fu'n fwriad i geisio cynhesu'r 16,000 galwyn o ddŵr er mwyn i'r plant gael chwarae ynddo ond byddai'n brosiect rhy gostus. Yn lle hynny, plannwyd Lili Ddŵr a Geletsh (*Iris*) hyd ei ymylon.

Roedd arysgrif ar y fainc lle'r eisteddwn "I goffáu Hugh Pettigrew (1871-1947) a'i fab Andrew (1912-1994) a fu'n gweithio a chwarae yn yr ardd." Pettigrew oedd y pen-garddwr a gynlluniodd yr ardd wreiddiol ar droad y ganrif ddiwethaf i'w feistres, y Fonesig Windsor, Iarlles Plymouth. Yn Rhufain y maged hi, lle roedd ei thad yn Llysgennad Prydeinig, a dyna sut yr ymserchodd hi yn yr arddull frodorol o gynllunio gerddi.


Wrth godi 'ngolygon mi welwn i do gwellt y Certws tu hwnt i wal yr ardd ... a dyna fi'n ôl yng Nghymru ar ôl orig dan haul y Môr Canoldir.

**D. Rhiannon Evans**



Juliet Hodgkiss, garddwraig hanesyddol cadwrol Amgueddfa Werin Cymru a phrif geidwad yr ardd Eidalaidd, yn yr ardd Eidalaidd ar fore'r agoriad.

## Y Border Bach
**gan Hwn a Hon**



A fuoch chi'n gwylio'r sioe flodau o Chelsea? Mae'n debyg mai'r lliw poblogaidd yno eleni oedd porffor, a'r blodyn a welwyd bron ym mhob gardd oedd yr allium.

Bwlb yw'r allium yn perthyn i deulu'r wynionyn a'r garlleg ac er eu hamlygrwydd yng ngerddi'r arbenigwyr yn Chelsea, maent yn hawdd i'w tyfu yn unrhyw forder bach. Mae nifer o wahanol fathau ar gael i gyd â dail gweddol ddi-nod fel y wynionyn ei hun, a'r blodau ran amlaf fel pelen ar ben coesyn main. Gall y lliwiau amrywio o wyn neu felyn i binc, porffor a glas, a'r rhai porffor oedd mwyaf amlwg yn Chelsea. Gall eu taldra amrywio o bum modfedd i bron pum troedfedd, a byddant yn blodeuo ym mis Mai a Mehefin.

Ar y cyfan mae'r rhai byrraf fel *A. moly*, sy'n felyn, â chlystyrau o flodau bach rhydd ar bob coesyn, tra bo'r rhai talaf â llawer o flodau bach yn gwneud i fyny un belen fawr. Y mwyaf yw *A. giganteum* sydd yn cyrraedd 4 i 5 troedfedd o uchder â blodau pinc-fioled sy'n 6 modfedd ar draws. Mae *A. chrisstophii* yn un prydferth fel pelen o sêr o liw pinc metalaidd eto â blodau mawr ond yn fyrrach o goes na'r *giganteum*. Yr un mwyaf rhyfedd yw *A. schubertii* sydd â blodau pinc fel tân gwyllt yn ffrwydro.

Dylech blannu'r bylbiau yn yr hydref mewn lle heulog a draeniad da. Peidiwch â'u plannu ar eu pen eu hun, ond cymysgwch nhw â phlanhigion eraill i guddio'r dail sydd yn gallu bod yn anniben. Maent yn edrych yn dda yn tyfu drwy ddail arian, porffor neu wyrdd golau.

Mae rhai o'r mathau mwyaf yn gallu bod yn eithaf drud i'w prynu, tua £5-£6 y bwlb, ond mae'r lleill yn eithaf rhesymol, ac mi ddylent dyfu 'nôl am flynyddoedd. Gallech hefyd dorri y pennau sych a'u defnyddio fel addurniadau trawiadol yn y tŷ am fisoedd. Un peth arall da amdanynt yw eu bod yn cael llonydd gan y malwod. Mae'n amlwg nad ydynt yn rhy hoff o'r arogl wynionyn sydd arnynt weithiau!


**Bob nos Iau, 9 o'r gloch ymlaen**

**Grŵp CYD**

***Y Mochyn Du***

**Clôs Sophia**

**Pontcanna**

**CAERDYDD**

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r grŵp yma, neu weithgareddau eraill CYD, cysylltcwch â Padi Phillips, Swyddog Cyswllt CYD De-ddwyrain Cymru ar 029 2031 2293 neu e-bost padi@ntlworld.com


## Wnaiff yr adar gleision hedfan yn yr Adran Gyntaf?



Mae miloedd o gefnogwyr yn heidio i Barc Ninian y dyddiau hyn i brynu tocyn tymor i weld y 'City'. Tybed a fydd digon o le yn y stadiwm i bawb? Mae lle i gredu os nad oes gennych docyn tymor fydd yna fawr o siawns i gael mynediad i unrhyw gêm. Fodd bynnag, mae'r clwb yn prysur gribo'r wlad i geisio cryfhau'r tîm. Yn fy meddwl i, y 'PRIORity' ydy cael amddiffynfeydd profiadol cyflym i gydweithio gyda Gabbidon. Mae'n rhaid ystyried yn ddwys yr esgyll oedd mor wan y tymor diwetha. Beth am Earnshaw, Campbell a Thorne? All y tri yma chwarae yn y llinell flaen? Oes yna ddigon o greadigrwydd ynghanol cae? Ble byddwn ni ar ddiwedd y tymor? Nifer o gwestiynau digon sylfaenol dwi'n meddwl a rhaid eu hateb yn weddol fuan.

Beth bynnag fydd yr atebion, dwi'n siwr y ceir tymor diddorol a chyffrous. Mae meddwl am West Ham yn erbyn Caerdydd yn apelio tipyn bach yn fwy at y dychymyg na Chaerdydd a Hartlepool. Dwi'n proffwydo y bydd Caerdydd yn gorffen y tymor yn hanner uchaf yr Adran.

Felly brysiwch i lawr i Barc Ninian i sicrhau lle i weld amryw o frwydrau gwerth-chweil y tymor nesaf!

**John Albert Evans**

# Newyddion o'r Eglwysi

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG

**Priodasau**

Pob dymuniad da i Sally-Anne Protheroe, sy'n dysgu Hanes yn Ysgol Gyfun Glantaf, ar ei phriodas â Ken Mc Phail, o Glasgow, ar ddydd Llun 4 Awst yn Neuadd Llangoed, ger Aberhonddu.

Pob dymuniad da i Gwen Williams a Jonathan Edwards ar eu priodas ar ddydd Gwener, 15 Awst, ym Mae Colwyn. Llongyfarchiadau hefyd i Gwen ar ennill gradd anrhydedd a chael ei phenodi i swydd ysgrifenyddol gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghastell Hensol.

Pob dymuniad da i Bethan Haf Davies ac Iwan Davies ar eu priodas yn Llangefni ar brynhawn dydd Gwener 8 Awst.

**Bore Coffi i'r Dysgwyr**

Yn ystod mis Mehefin, cynhaliwyd dau fore llwyddiannus i ddysgwyr profiadol yr iaith, a daeth nifer ynghyd i astudio'r Gymraeg drwy ddamhegion dan arweiniad Lis Williams a Lynne Davies. Bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Sadwrn 20 Medi.

**Dyweddïad**

Pob dymuniad da i Manon Owen, o Fae Colwyn yn wreiddiol, ac Adrian Jones, o Southampton, ar eu dyweddïad.

**Barbeciw**

Cynhaliwyd y barbeciw blynyddol ym Mhorthceri, y Barri, ar brynhawn dydd Sadwrn 28 Mehefin. Roedd y tywydd yn ardderchog a daeth nifer o aelodau a chyfeillion yr eglwys ynghyd i fwynhau'r hwyl a'r lluniaeth.

# PROMS Cymreig 2003

## - TEIMLWCH Y WEFR!

Bydd tymor Proms Cymreig 2003 yn Neuadd Dewi Sant yn cyflwyno rhaglen syfrdanol o gyngherddau, o 17 tan 26 Gorffennaf, gyda phedair o gerddorfeydd gorau'r DU, llu o unawdwyr rhyngwladol eu bri a pheth o gerddoriaeth glasurol a phoblogaidd geina'r byd. Mae'r Proms Cymreig, gyda'i Gyfarwyddwr Artistig Owain Arwel Hughes, bellach yn ei 18fed tymor. Eleni mae'r Proms wedi ymuno â Classic FM i gynnig rhaglen o ddigwyddiadau sy'n fwy nag erioed ac yn fwy amrywiol.

Bydd y saith o gyngherddau cerddorfaol eleni yn cynnwys perfformiadau gan Gerddorfa'r Royal Philharmonic ar 17, 18 a 19 Gorffennaf, Cerddorfa'r Philharmonia ar 22 Gorffennaf, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ar 23 Gorffennaf a Cherddorfa'r Royal Liverpool Philharmonic ar 25 a 26 Gorffennaf. Bydd nifer o unawdwyr sy'n fawr eu clod gan y beirniaid yn perfformio, gan gynnwys y pianydd Noriko Ogawa yn Concerto Piano Rhif 2 Rachmaninov (y Prom Mawreddog, 17 Gorffennaf), y pianydd Martin Roscoe yn Rhapsody in Blue Gershwin (Prom y Byd Newydd, 18 Gorffennaf) a'r feiolinydd Chloë Hanslip yn Concerto Feiolin Bruch (y Prom Rhamantaidd, 25 Gorffennaf). Mae'r Prom Corawl Ewropeaidd (19 Gorffennaf) yn cynnig llwyfan i'r soprano Rebecca Evans, y tenor Aled Hall a'r bariton Jeremy Carpenter, yn ogystal â phedwar côr mewn perfformiad o Carmina Burana Orff. Bydd y Prom Opera (22 Gorffennaf) yn cyflwyno'r soprano Joan Rodgers, y mezzo soprano Susan Parry a'r tenor John Daszak mewn detholiad o gerddoriaeth o operâu gan Berlioz, Bizet, Tchaikovsky, Delibes a Saint-Saëns.

Mae mwy o fanylion am y cyngherddau i'w gweld ar wefan y Proms Cymreig: www.welshproms.co.uk

# Munudau Difyr yr Awr Hapus

Os ydych yn chwilio am gyfle i gwrdd â phobl newydd, siarad Iaith y Nefoedd, neu gwrdd â nifer o gapelwyr neu eglwyswyr, gaf i awgrymu eich bod yn troi i mewn i Westy'r Pentref a'r Ganolfan Hamdden yn Coryton, Caerdydd. Dyma gartref yr Awr Hapus. Efallai na fyddwch yn synnu clywed bod nifer o Gristnogion yn mynychu'r Awr Hapus, sydd bellach yn bodoli ers blwyddyn a hanner. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf fore Llun, 19 Tachwedd 2001 yn gwmni bach o chwech. Cyfle i gymdeithasu drwy'r Gymraeg - yn enwedig i ddysgwyr - yw'r Awr Hapus.

Un o'r selogion yw'r Parchedig Ddr John Dann, yr Eglwys Newydd, gweinidog a darlithydd wedi ymddeol gyda'r Bedyddwyr. Mae ei wraig, Thelma, hefyd yn un o'r ffyddloniaid. Mae John (neu Ioan am awr ar foreau Llun!) wedi pregethu unwaith neu ddwy yn yr oedfa Saesneg ar nos Sul yn Nhonyfelin, Caerffili. Rwy'n credu ei bod yn uchelgais gan Ioan i bregethu yn Gymraeg ryw fore Sul. Pan fydd ei Gymraeg yn ddigon rhugl, does on angen iddo gysylltu ag ysgrifennydd y pulpud neu'r cyhoeddiadau!

Roedd John neu Ioan yn un o sylfaenwyr yr Awr Hapus. Felly hefyd Barbara Morgan sy'n aelod ffyddlon yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd. Athrawes ysgol gynradd wedi ymddeol yw Barbara.

Erbyn hyn mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol - cyfartaledd o ddeunaw yn ddiweddar. Oes, mae rhaid i ni wahanu mewn grwpiau llai y dyddiau hyn. Ceir tri grŵp ym mar Tŷ Bwyta Salingers ac mae Barbara, rwy'n siwr yn mwynhau gofalu am un grŵp. Felly hefyd Mair Morgan (o Gydweli yn wreiddiol), Cymraes rugl a ddaeth atom â'r bwriad o helpu dysgwyr ar ôl darllen amdanom yn *y Dinesydd*. Diolch Mair!

**Gwilym Dafydd**


**GWRES GWYN**

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

*Ydy **Alcohol** yn costio mwy nag arian i ti?*

Paid digalonni! Mae 'na ateb!

AA

**Alcoholigion Anhysbys**

Ffonia **0845 7697555** a gofyn am gael sgwrs **yn Gymraeg** gyda rhywun sy'n deall.

**DEINTYDD**

*Gwasanaeth Iechyd (NHS) / Preifat*
*yn dal i dderbyn cleifion newydd*

**Osian Davies, BDS (Cymru)**

28 Heol y Santes Fair, Caerdydd
(drws nesaf i McDonalds)

029 2037 1393

**TRYDANWR**

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**
neu **07967 558664**